**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 15 Ionawr 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | S J Gallagher | P R Hood-Williams |
| E T Kirchner | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lisa Banks | Swyddog Cynllunio - DLI |
| Peter Field | Prif Swyddog - Ataliaeth, Lles a Chomisiynu |
| Chris Francis | Swyddog Contractio Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |
| Jane Whitmore | Rheolwr Partneriaethau a Chomisiynu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M B Lewis, M Sykes a/ac G J Tanner

---

**27 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**28 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2019 fel cofnod cywir.

**29 Trosglwyddo ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anabledd. (Llafar)**

Rhoddodd Chris Francis, Prif Arweinydd Datblygu a Chomisiynu Busnes y diweddariad llafar canlynol:

Roedd y Grŵp Llywio wedi parhau â'i waith gan ganolbwyntio ar y Polisi Trosglwyddo Drafft. Roedd y Grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth gan bartneriaid mewn Addysg, Gwasanaethau i Oedolion, Iechyd ac aelodau o'r Fforwm Gofalwyr sy'n Rieni. Mae'r Polisi Drafft wedi'i ddosbarthu i aelodau o'r Grŵp Llywio a byddai'n cael ei ystyried ganddynt yn eu cyfarfod nesaf ddydd Gwener, 17 Ionawr 2020. Y gobaith

oedd y byddai'r ddogfen wedyn yn barod i'w dosbarthu i randdeiliaid eraill ar gyfer ymgynghoriad ehangach, gan gynnwys i'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl.

Dywedodd y Prif Arweinydd Datblygu a Chomisiynu Busnes bod newidiadau sylweddol ar droed yn y maes gwaith hwn ac nad oedd yn eglur beth yn union fyddai'r goblygiadau i'r cyngor a'r Bwrdd Iechyd. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys y Ddeddf Tribiwnlys Addysg newydd ac Arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer Plant ag Anghenion Cymhleth. Roedd gan y ddwy ddogfen adrannau a oedd yn ymwneud â Throglwyddo wedi'u cynnwys ynddynt, y byddai angen eu cynnwys mewn unrhyw bolisi newydd a oedd yn cael ei ystyried i'w fabwysiadu gan y cyngor.

Dywedodd hefyd fod Bwrdd Rhaglen Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg yn parhau a'i waith ar gefnogi plant â'r anghenion mwyaf cymhleth. Cynhaliwyd adolygiad yn ddiweddar a gwaed cyfres o argymhellion. Byddai'r Bwrdd yn cyfarfod eto'r wythnos hon i ystyried a ellid ailadrodd y gwaith cadarnhaol a wnaed mewn perthynas â Throglwyddo ar draws y rhanbarth.

Cydnabu'r Prif Arweinydd Datblygu a Chomisiynu Busnes fod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud mewn perthynas â Throglwyddo ar lefel uwch, a allai newid y cyfeiriad teithio yn y dyfodol.

Dywedodd wrth y Pwyllgor ei fod hefyd wedi cadeirio cyfarfod Rheolwyr Amlasiantaeth ynghyd â chynrychiolwyr o’r meysydd Addysg, Iechyd a’r Gwasanaethau i Oedolion. Roeddent wedi bod yn gweithio ar greu rhestr gynhwysfawr o bobl ifanc y credwyd y byddai angen cefnogaeth amlasiantaeth arnynt wrth iddynt drosglwyddo i fod yn oedolion. Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Chwefror, lle byddent yn adolygu'r rhestr i sicrhau ei bod yn gywir a byddai'n rhaid sefydlu cynlluniau cadarn er mwyn cefnogi'r bobl ifanc yn ystod y cyfnod troglwyddo.

Gofynnodd y Pwyllgor nifer i gwestiynau, ac ymatebodd y swyddog iddynt yn briodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Arweinydd Datblygu a Chomisiynu Busnes am y diweddariadau a chafwyd trafodaeth ynghylch y camau nesaf mewn perthynas â'r Polisi Troglwyddo Drafft.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r diweddariad;
2) Dosbarthu'r Polisi Troglwyddo Drafft i'r Pwyllgor Datblygu Pobl ar yr un pryd ag y caiff ei ddosbarthu i randdeiliaid i ymgynghori arno;
3) Cynnal gweithdy yn syth ar ôl y cyfarfod nesaf ar 19 Chwefror 2020 er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried y Polisi Troglwyddo Drafft.

## 30 Ymagwedd Strategol at Fodelau Comisiynu - Modelau Gofal a Chefnogaeth Newydd. (Llafar)

Eglurodd Jane Whitmore, Rheolwr Partneriaethau a Chomisiynu, y byddai Lisa Banks, Swyddog Cynllunio Uned Contract a Chynllunio yn yr Hwb Comisiynu, a hithau'n darparu sesiwn mewn arddull gweithdy yn syth ar ôl y Pwyllgor. Fe fyddai'r pwyllgor yn archwilio eu gwaith parhaus ar ystyried y Modelau Gofal a Chefnogaeth

Newydd ar gyfer y Modelau Comisiynu ymhellach mewn perthynas â'u trafodaethau blaenorol ar Fentrau Cymdeithasol.

Fel y gofynnwyd amdano yn y cyfarfod blaenorol ym mis Tachwedd 2019, roedd Lisa Banks wedi gwneud cryn dipyn o waith ymchwil sylweddol ar y pwnc. Byddai angen i'r Pwyllgor ystyried beth oedd y cyfleoedd, y risgiau, y rhwystrau a'r camau perthnasol y byddai angen eu cymryd i symud y darn hwn o waith yn ei flaen.

**Penderfynwyd** y dylid diweddaru'r pwyllgor ar ganlyniadau'r gweithdy mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 31 Cynllun Gwaith 2019-2020.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2019-2020.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r Cynllun Gwaith;
2) Bydd y Pwyllgor yn cynnal gweithdy mewn perthynas â'r Polisi Trosglwyddo Drafft yn syth ar ôl ei gyfarfod ar 19 Chwefror 2020;
3) Diweddaru'r Pwyllgor ar y gweithdy a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2020 ar yr "Ymagwedd Strategol at Fodelau Comisiynu - Modelau Newydd o Ofal a Chefnogaeth" mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.18 pm

**Cadeirydd**